PW: Remind us that all local SACREs have had the opportunity to feedback on a local level through the collaborative process, so we have ownership of the agreed syllabus.

PR: With regards to the agreed syllabus meetings at the end of April 2021, there are local government elections in May 2022. Is there a period of purdah before the elections where SACREs are not legally allowed to make a decision?

PW: Yes, there will be a period of purdah. The meetings to ratify the agreed syllabus will need to be before this date.



RT: It is normally a month before the elections.

VB: Gives reassurance to colleagues, we are in a strong place and have a strong collaborative network for RVE. Echoes the point that we have been part of the consultation process, more so than any other subject. This is very positive, and we need to reflect on this. I am happy to offer my support.

## **8. Qualifications Wales**

RS reported that members of the WASACRE Executive will be meeting with Qualifications Wales at the end November 2021/ beginning Dec 2021. Feedback from this meeting will be given in the March meeting. Qualifications Wales is looking at the new design of the GSCEs. The working team includes members of the WASACRE Executive and Teacher members of WASACRE.

## **9. Report from the Executive Committee held on 5 Oct 2021**

RS reported that most of the discussion of the Executive Committees meeting has naturally come up in today's meeting.

A meeting with Welsh Government is to be arranged now that suggested dates have been received. We have all received an update with the progression of the RVE guidance.

As part of the professional learning discussion, John Meredith, Church in Wales, mentioned they are running a hybrid conference, physically in Abergavenny and online. The provisional date is 13th June 2022. The theme is Climate Change and linked to the RVE Curriculum. WASACRE have received an offer to exhibit a stall, free of charge.

WASACRE are looking to hold a conference virtually. This will be scheduled around the time that the professional learning package, that we are developing with the Welsh Government, becomes live around April / May 2022.

There were discussions on WASACRE's constitution, looking at its relevance and how meetings are run. There will be more information to follow in the next meeting.

Concerns were raised for the examinations in the summer, particularly the GSCEs, where students are to sit two exam papers of 95 mins. Many were concerned of the pressure on the students. A letter is being prepared to be sent to the Welsh Government expressing WASACRE's concern for the well-being of the students.

WASACRE are developing a statement to accompany any resources that they share This will provide clarification that these resources are not necessarily endorsed by WASCRE but are provided as useful information.

WASACRE is considering its name as SACREs are becoming Standard Advisory Councils. What is WASACRE to become? We need to think about this as a group.

## 10.Up-dates:

**REC** -TapS attended the last REC meeting on behalf of WASACRE. TapS reported that a large part of the meeting was dedicated to the REC's Religion and Worldviews project. This is a significant development for RE in England to support and shape agreed syllabi in RE.

Whilst there will be some involvement for Wales this work will not supersede the RVE guidance document produced by Welsh Government, currently out for consultation. WASACRE will continue to identify any areas that can be of use to the Welsh SACREs.

First phase is coming to an end with resources now produced and published online which explore the concept of worldviews. Second phase is just beginning and aims to build on outputs from phase 1 and bring the vision into practice. The end point of the whole project is the REC AGM in 2024.

There are three major milestones from now until 2024: a) The production of a handbook including definitions and outlining what worldviews look like in practice b) Creation of three frameworks for worldviews in RE with production of case studies and C) Creation of units of work which will reflect the three frameworks.

REC website has documentation available on their website. There was an interesting presentation of the results from a Culham St Gabriels Trust survey on the public perception of education in worldviews and religions. Results from 2000 adults in UK. Results can be viewed on the Culham St Gabriels website which is broadly relevant for Wales as well as England.

LB: This work is about the religion and worldviews in England.

### **AREIAC**

No one present to provide update

### **EFTRE**

No one present to provide update

### **REMW**

PM: No update given in order to help with keeping meeting on time.

RS: PR to send a written update to RS if appropriate.

## **IFN**

LJ: David Hampshire has taken up a new role which means there is no representative from IFN attending the WASACRE meetings. LJ wishes him well in his role and will investigate gaining future representation from IFN. The Interfaith week was 14th – 21st Nov 2021. There are examples of the great work that took place during this week on the Interfaith Network website.

## **NAPfRE**

PW confirmed that she has taken over as Chair and PL has been appointed as Deputy Chair. PW reported that the NAPfRE discussions were similar to the discussions from today. PW expressed how good it was to welcome new colleagues. The vision, aims and constitution in terms of NAPfRE and the education system was discussed. PW reminded the group that NAPfRE is a panel for educational specialists. PW hoped, under her Chair, to strengthen the relationship further between NAPfRE and WASACRE.

The ASCs were also discussed in detail.

## **11. Correspondence**

RS: Read out an email from Gill Vaisey in which she advised members that she is relinquishing her roles with WASACRE. GV thanked the group for their friendship and professional support since her time as Advisory Teacher for Gwent in 1992. GV gave reassurance that her passion for promoting excellence in RE remains. She explained that the response to her most recent project and resulting books, *Belonging and Believing*, is phenomenal and creating more opportunities to support schools. Working with these 8 wonderful families each of a different worldview, most of whom are living in Wales, has been a highlight of her career. She feels privileged and grateful to the families and communities involved, to have had this opportunity and experience, and most importantly to share an insight into their family life with others. She will continue to support colleagues and teachers with the new curriculum and the move from RE to RVE. GV welcomes individuals to contact her if they should require her support.

RS passed on her personal heartfelt thanks and on behalf of WASACRE thanked her for her years of un-faulting commitment to RE, to WASACRE and the SACREs within Wales. We have greatly appreciated and gained a great deal from her expertise. We wish her well in her future work.

NB: I worked for many years with Gill in SACRE Newport and SACRE Monmouthshire. Gill always surprised me as to what she can do. Her work with all the communities is an example to all of us. I wish her all the best and thank her for all the work for the SACREs and the communities.

PW: GV has been an incredible support as a colleague and a friend. Excited for her new project and resources. Her understanding of the new curriculum is excellent, and these types of resources are exactly what we need. Thank you for everything.

CA: Gill is the reason I am here today. Her foresightfulness and understanding for the need of drawing people of all faiths together is greatly appreciated. I am working with her on her new project as my granddaughter is one of the featured families in her new work. Gill showed such precision to ensure that each book reflects their family life. We can trust her resources.

RS: This shows how much Gill is valued as a colleague and friend. She keeps up to date with RE developments and has demonstrated that she is an innovator in RE. She is so often, ahead of the game. Hopefully we will be able to meet to express our thanks in person.

AP confirmed that she will follow up with an email to thank GV and congratulate her on her new work.

Two pieces of correspondence

1) Annual reports

Thank you to those SACREs who have sent their Annual Reports.

Reminder that the deadline date for outstanding Annual Reports is 30<sup>th</sup> December 2021. Please send a copy to WASACRE, Welsh Government and to any local institutions that normally receive the report.

**Actions: AP to send to SACREs the contact at Welsh Government for delivery of the Annual Report.**

2) Qualification Wales

A request sent from Ian Mitchell to LJ for possible contacts to support with a coherence group. They are looking to increase representation on a wider stakeholder AoLE network group.

## **12. Any other business (to be agreed in advance of the meeting with the Chair)**

None

## **13. Date for next meeting: March 2021 TBC**

RS mentioned that the next meeting will be online and hosted by Neath / Port Talbot Council in March 2022. Date to be sent as soon as possible.

Meeting ended 1.30pm

**Yn bresennol**

<p><b>Ynys Môn / Anglesey</b> Dylan Rees (DR) Rheinallt Thomas (RT)</p> <p><b>Blaenau Gwent</b> Kathy Riddick (KW) Chris Abbas (CA)</p> <p><b>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend</b> Alice Parry (AP) Edward Evans (EE)</p> <p><b>Caerffili/ Caerphilly</b> John Taylor (JT)</p> <p><b>Caerdydd / Cardiff</b> Mark Griffiths (MG) Andrew Jones (AJ)</p> <p><b>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire</b></p> <p><b>Ceredigion</b> Mary Davies (MD)</p>	<p><b>Conwy</b> Phil Lord (PL) Jennie Downes (JD)</p> <p><b>Sir Ddinbych / Denbighshire</b> Phil Lord (PL) Cllr Ellie Chard (EC) D Trhea (DT)</p> <p><b>Sir y Fflint / Flintshire</b> Vicky Barlow (VB) Dave Mackie (DM) Catherine McCormack (CM)</p> <p><b>Gwynedd</b> Paul Rowlinson (PR)</p> <p><b>Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil</b> Cllr Ernie Galsworthy (EG)</p> <p><b>Sir Fynwy / Monmouthshire</b> Louise Brown (LB) Beryl Quinlan (BQ) Suzanne Gooding (SG)</p> <p><b>Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot</b> Rachel Samuel (RS)</p> <p><b>Casnewydd / Newport</b> Neeta Baicher (NB) Huw Stephens (HS) Laura Lacey (LL) Laura Shepherd (LS)</p>	<p><b>Sir Benfro / Pembrokeshire</b> Amanda Lawrence (AL)</p> <p><b>Powys</b> John Mitson (JM) Jackie Parker (JP)</p> <p><b>Rhondda Cynon Taf</b> Donna Graves (DG) Matthew Maidment (MM)</p> <p><b>Abertawe / Swansea</b> Jennifer Harding-Richards (JHR)</p> <p><b>Torfaen</b> Julian Doroszczuk (JD)</p> <p><b>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan</b> Edward Williams (EW) Lucy Grant (LG)</p> <p><b>Wrecsam / Wrexham</b> Libby Jones (LJ) Vaughan Salisbury (VS) Tania ap Siôn (TS)</p>	<p><b>PYCAG</b> Paula Webber (PW)</p> <p><b>Sylwebyddion: REMW</b> Paul Morgan (PM)</p> <p><b>CBAC</b></p> <p><b>ESTYN</b></p> <p><b>Llywodraeth Cymru</b></p> <p><b>REC</b></p> <p><b>Eglwys yng Nghymru</b></p> <p><b>Gwas. Addysg Gatholig</b> Angela Keller (AK)</p> <p><b>Cymwysterau Cymru</b></p> <p><b>Rhyng-ffydd</b></p> <p><b>ADEW</b></p> <p><b>Prifysgol Cymru</b> Rachel Bendall (RB)</p> <p><b>Cyflwynwyr</b> Georgie Bevan (GB) Hayley Jones (HJ)</p> <p><b>Cofnodion (o recordiad)</b> Jo Nicholls (JN)</p>
--	--	---	--

## **1. Cofnodion y cyfarfod**

Croesawodd RS, yn Gymraeg a Saesneg, bawb i gyfarfod yr hydref. Eglurodd y bydd y cyfarfodydd yn parhau i fod ar-lein.

Croesawyd pawb hefyd gan Julian Doroszczuk, y Pennaeth Dysgu o Dorfaen, fel y CYSAG oedd yn lletya. Siaradodd JD ar ran Prif Swyddog Addysg Torfaen.

Diolchodd JD i bawb am roi o'u hamser heddiw. Soniodd am yr her fwyaf sy'n wynebu ysgolion ar hyn o bryd - absenoldeb staff. Roedd JD yn cydnabod ymroddiad a phroffesiynoldeb staff ysgolion, yr asiantaethau allanol a'r CYSAG lleol wrth baratoi a gweithredu'r cwricwlwm newydd ac yn arbennig, wrth baratoi'r datblygiad yn y symudiad tuag at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) er gwaethaf heriau COVID 19.

Mynegodd JD ei ddiolch i PW am ei gwaith fel ymgynghorydd proffesiynol i GYSAG Torfaen a dywedodd ei fod yn gobeithio fod ei swydd newydd yn mynd yn dda.

Mae JD yn edrych ymlaen at dderbyn y canllawiau terfynol ac roedd yn annog pawb i fynychu cyfarfodydd cynllunio ac unrhyw hyfforddiant yn y dyfodol, er mwyn sicrhau y bydd CYSAGau, neu i roi iddynt eu henw newydd, Cyngorau Ymgynghorol Safonol i CGM, yn gallu gwneud penderfyniadau cytbwys am y polisiau lleol a chenedlaethol i gefnogi dysgwyr ledled Cymru.

## **2. Myfyrdod tawel**

Dywedodd RS fod bron i dymor o addysg wyneb yn wyneb wedi digwydd erbyn hyn, am y tro cyntaf ers ymron i 2 flynedd. Arweiniodd RS yr aelodau drwy fyfyrdod ar werthfawrogi'r pethau cadarnhaol a gyflawnwyd a chynnal meddylfryd cadarnhaol drwy'r amser hynod brysur yma.

## **3. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Meredith (Blaenau Gwent) a Gwyneth Hughes (Ynys Môn)

## **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021**

Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021. Cynigiwyd eu derbyn gan RT ac eiliwyd gan VS.

## **5. Materion yn codi o gyfarfod diwethaf CCYSAGauC**

Adroddodd RS y treuliwyd y rhan fwyaf o'r cyfarfod diwethaf yn trafod dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru – Canllawiau CGM. Cadarnhaodd RS fod yr holl sylwadau o'r drafodaeth wedi'u casglu a'u cynnwys yn yr ymateb i Lywodraeth Cymru gan CCYSAGauC. Anfonwyd yr ymateb erbyn y dyddiad cau.

## 6. Cyflwyniad PYCAG

Cafwyd cyflwyniadau gan dri chynrychiolydd o'r pedwar consortiwm. Cadarnhaodd RS y bydd ERW yn cael cyfle i gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

I ddechrau, cyflwynodd Donna Graves (Ymgynghorydd AG) Strategaeth Ddyniaethau Consortiwm Canolbarth y De (CCD).

Ymddiheurodd DG ar ran Nicky Hagendyk, Arweinydd Strategol y Dyniaethau. Bu DG ac NH yn rhan o ddatblygu'r cyflwyniad hwn.

Cyflwynodd DG ei hun. Mae hi wedi'i secondio i Gonsortiw Canolbarth y De ar gytundeb rhan amser 12 mis, fel yr ymgynghorydd cysylltiol i AG/CGM a CYSAG i'r 5 rhanbarth.

Mae CCD yn cefnogi datblygiad y dyniaethau, yn arbennig, CGM ac AG, gyda'r sylw presennol ar y trawsnewid o'r cwricwlwm presennol i'r cwricwlwm newydd.

Gyda symud i'r cwricwlwm newydd, mae CCD wedi ehangu'r tîm er mwyn cynyddu capasiti i gefnogi ysgolion i ymateb i'r galwadau a'r anghenion. Yn ogystal â NH a DG mae nifer cynyddol o ymarferwyr arweiniol. Gall CCD gynnig mwy o ddysgu proffesiynol a chymorth i ysgolion ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad, ac yn enwedig mewn CGM.

Mae CCD yn rhoi mwy o sylw i'r cynradd yn ogystal â'r uwchradd ac yn ddiweddar sefydlodd rwydwaith dyniaethau cynradd i gefnogi ysgolion cynradd. Mae'r gefnogaeth wedi'i theilwra i ddylunio'r cwricwlwm drwy raglen ddysgu broffesiynol CCD, cyfarfodydd rhwydwaith Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) a thrwy gefnogaeth arbennig CCD i ysgolion.

Mae gan CCD Fodel Her Canol De Cymru sy'n annog ysgolion i rwydweithio, cydweithredu a bod yn gyd-bartner i CCD fel yr hwylusydd, y brocer a'r rhoddwr cymorth. Ar y model hwn mae gwaith CCD i gyd wedi'i seilio.

Aeth DG drwy'r cyflwyniad a oedd yn cynnwys:

- Strategaeth Ddyniaethau CCD
- Y siwrne i 2022 – Model Meddwl Dylunio
- Cefnogaeth ar y Cwricwlwm i Gymru yn CCD
- Dysgu Proffesiynol Addysg Grefyddol
- Enghreifftiau o dudalennau gwe

Anfonir y cyflwyniad llawn gyda'r cofnodion. Un o'r agweddau o'r dysgu proffesiynol y soniwyd amdano oedd datblygu rhestrau chwarae o adnoddau CGM ar-lein. Bydd yr adnoddau hyn yn cynnwys adroddiadau, blogiau, geirfa a'r dolenni perthnasol i adnoddau. Mae'r rhestr chwarae gyntaf yn canolbwyntio ar fydolygon ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol ac mae'n cynnwys podlediad gan Ddyneiddwyr Cymru.

**Gweithredu:** AP i anfon y cyflwyniad llawn gyda chofnodion y cyfarfod hwn.

PW: Diolchodd i CCD am y gwaith ardderchog a wnaethant mewn amser mor fyr.

RS: Roedd hi'n cydnabod y cynnydd a wnaed gan CCD.

LB: Mynegodd LB ei phryder am gyfeiriad y rhestrau chwarae gan mai dim ond un argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol yw dyneiddiaeth. Ble mae CGM yn eistedd o fewn y rhestrau chwarae hyn? Mae angen i'r prif grefyddau gael eu cynrychioli ynddynt.

DG: Eglurodd fod cyfeiriad y rhestrau chwarae yn cael ei ddatblygu gan y cwestiynau a gafwyd gan ymarferwyr. Wrth i athrawon AG glywed y termau 'Bydolygon' a'r cysyniad newydd o 'argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol', penderfynwyd y byddai'r rhestr chwarae gyntaf yn canolbwyntio ar yr agwedd hon. Cytunodd DG mai dim ond un llinyn yw Dyneiddiaeth a bod CCD yn croesawu argymhellion gan gonsortia eraill a ChYSAGau am gyfraniadau gan fydolygon eraill. Bydd rhestrau chwarae pellach yn cynnwys y prif grefyddau a bydolygon eraill.

RS: Dywedodd mai proses o ddatblygu yw hon, a bod y gwaith cychwynnol yn dod yn sgil y wybodaeth sydd ei hangen gan yr ymarferwyr. Wedi i'r datblygiad gael ei gwblhau, bydd bydolygon eraill yn cael eu cynnwys er mwyn creu'r cydbwysedd sy'n ofynnol yn gyfreithiol i ddarparu'r cwricwlwm gorau i athrawon a myfyrwyr.

KR: Yn argymhell penodi dyneiddiwr ar GYSAGau. Bydd hyn yn help i lunio'r maes llafur ar gyfer argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

HS: Fel aelod o GYSAG Casnewydd, mae'n rhaid cytuno ar faes llafur cytunedig lleol. Os yw pob ysgol yn llunio'i chwricwlwm ei hun, sut gellir safoni hyn? Bydd TGAU a Safon Uwch yn cael eu cynnig. Mae'n rhaid i beth bynnag a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 3 lifo i mewn i hynny ac nid ydym yn gwybod beth yw'r cynnyrch terfynol rydym yn gweithio tuag ato.

PW: Gan ei fod yn newydd i ysgolion, mae bydolygon yn gysyniad pwysig yn y datganiadau *Yr Hyn sy'n Bwysig* sydd angen sylw. Mae CCD yn datblygu cefnogaeth yn y maes hwn. I ateb pwynt HS, mae'r cymwysterau'n seiliedig ar y datganiadau hyn. Rydym yn gwybod felly sut maen nhw'n edrych. Mae'r cysyniadau allweddol wrth ddylunio'r cymhwyster eisoes wedi'u cofnodi. Mae'n bwysig bod ysgolion yn dilyn model CCD ar sut i ddylunio cwricwlwm yng Nghymru, gan ei fod yn darparu proses sy'n helpu safoni cwricwlwm yr ysgolion. Felly yr hyn sydd angen ei ystyried yw'r datganiadau *Yr Hyn sy'n Bwysig*.

RS: Mae'n bwysig ein bod yn meddwl am addysg mewn ffordd wahanol erbyn hyn. Mae'r sylw wedi symud o'r myfyrwyr yn datblygu sgiliau a galluoedd, at fyfyrwyr yn meddu ar yr offerynnau i allu darganfod gwybodaeth. Fel yn ôl cyflwyniad CCD, mae angen i ysgolion edrych ar y darlun mwy cyn tyrchu i'r addysgu.

Cyflwynodd RS y cyflwyniad nesaf gan EAS a oedd yn dangos sut maen nhw'n dechrau uwchsgilio eu hathrawon a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Cyflwynwyd Georgia Bevan, yr Arweinydd ar STEM a'r pynciau cwricwlwm ehangach, ar draws 4 o'r MDaPh, a Hayley Jones, y partner AG newydd.

Aeth GB drwy raglen Ranbarthol EAS a'r siwrne o 2022 ymlaen.

Sleidiau'r Rhaglen Ranbarthol:

- Wedi datblygu rhaglenni Traws-ranbarthol i Benaethiaid ac Uwch Arweinwyr
- Wedi datblygu rhaglenni Traws-ranbarthol i Arweinwyr Canol
- Wedi creu grŵp dylunio'r cwricwlwm uwchradd
- Themâu Trawsbynciol



- Dull cydweithredol o ddylunio'r cwricwlwm
- Wedi creu grŵp datblygu'r Cwricwlwm i Gymru

### **Sleid i'r Siwrne o 2022 ymlaen:**

- Rhaglen Ddysgu Broffesiynol i Benaethiaid ac Uwch Arweinwyr
- Rhaglen Ddysgu Broffesiynol i Arweinwyr Canol ac Athrawon
- Grŵp Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru
- Grŵp Dylunio'r Cwricwlwm Uwchradd
- Grŵp Dylunio a Datblygu MDAph (traws ranbarthol)
- Grŵp Cynnydd a Datblygiad y Cwricwlwm i Gymru
- Cyfarfodydd MDAph a Rhwydwaith Sgiliau EAS

Cyflwynodd HJ y camau nesaf i CGM yn EAS.

Bydd y cyflwyniad llawn ar gael gyda'r cofnodion.

### **Gweithredu: GB/ HJ i ebsotio'r cyflwyniad i AP ei anfon i'r grŵp.**

Diolchodd RS i HJ a GB am eu cyflwyniadau a'r gwaith sylweddol a wnaed yn eu siwrne o ddeall y cwricwlwm.

PW: Mae'n amlwg fod y ddau gyflwyniad yn dangos dull gweithredu o'r top i lawr i ddylunio'r cwricwlwm, gan ddechrau gyda'r Penaethiaid. Sut gall y consortia gryfhau ymgysylltiad â ChYSAGau? A oes mwy o gyfleoedd i gynnwys aelodau CYSAG a rhanddeiliaid eraill yn eich cyfarfodydd rhwydwaith?

GB: Dywedodd eu bod yn rhannu gyda'r CYSAGau, ac mae'r adnoddau i gyd ar gael ar alw. Mae HJ yn gweithio ar gynyddu aelodaeth CYSAG. Rydym yn codi'n proffil gyda'r Awdurdodau Lleol (ALI) ac yn ddiweddar cyflwynodd HJ mewn digwyddiad i Benaethiaid.

HJ: Mae gwaith y CYSAG yn hanfodol ac mae ganddynt lawer i'w gynnig. Wedi trefnu bore coffi gydag un o'i GYSAGau.

LB: Yn falch o weld yr agwedd hyblyg yn y cyflwyniad ac yn cefnogi cael gwybod am gyfarfodydd rhwydwaith.

VS: Mae'n bwynt pwysig, fod aelodau CYSAG yn cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd rhwydwaith hyn ond gan fod CYSAGau yn datblygu meysydd llafur cytunedig, a oes pobl o'r tu allan yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd CYSAG?

HJ: Cytuno ei bod yn bwysig fod y drafodaeth yn mynd y ddwy ffordd.

GB: Mae EAS wedi gwahodd gwesteion i'r cyfarfodydd ac yn rhagweld CYSAGau yn cyflwyno i'r grwpiau rhwydwaith.

RS: Gyda'r Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig, mae'n bwysig fod y partiön perthnasol i gyd yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth fel rhan o ffurfio cwricwlwm pob CYSAG / ALI.

Rhodddwyd y trydydd cyflwyniad a'r un olaf gan Phil Lord, Consortiwm GwE.

Cyflwynodd PL ei hun fel ymgynghorydd AG annibynnol i GYSAGau Conwy a Sir Ddinbych sy'n gweithio gyda GwE mewn rôl heb fod yn ymgynghorydd AG. Eglurodd PL fod y CYSAG yn eistedd ar wahân i GwE.

Dangosodd cyflwyniad PL y gefnogaeth y mae GwE wedi'i rhoi i'r Cwricwlwm i Gymru yn ei gyfarwydd, ers dechrau 2021.

Mae GwE yn edrych ar y cwricwlwm ar lefel uchel ac yn annog arweinwyr i feddwl am sut i'w weithredu yn eu hysgolion. Mae GwE wedi creu adnoddau sydd ar gael i ysgolion.

Strwythur GwE i helpu ysgolion yw model hwyluso sy'n caniatáu dull o gydweithio â GwE ac sy'n caniatáu i ysgolion 'ddadbacio' dogfennau'r Cwricwlwm i Gymru.

Ar hyn o bryd mae'r rhanbarth yn gweithio ar ddatblygu dealltwriaeth glir o ddatganiadau yr hyn sy'n bwysig a'r cynnydd mewn camau.

Mae 8 o grwpiau ar y lefel ranbarthol ac 8 ar lefel awdurdod lleol. Mae pob un o'r 8 grŵp yn cynnwys 6 grŵp Maes Dysgu a Phrofiad, grŵp dylunio'r cwricwlwm a grŵp asesu. Mae pob grŵp yn cyfarfod bob hanner tymor. Mae 580 o athrawon ar y rhwydwaith, gyda GwE yn cefnogi drwy gadeirio'r cyfarfodydd. Bydd adnoddau'n cael eu creu fel deilliant o'r trafodaethau yn y cyfarfodydd.

Mae'r CYSAGau unigol yn cefnogi eu hathrawon eu hunain. Nid yw GwE'n rheoli'r CYSAGau nac yn darparu hyfforddiant CGM.

Diolchodd RS i PL am ei gyflwyniad a thynnodd sylw at y neges gyffredin, sef bod angen dealltwriaeth fras o'r cwricwlwm fel cam cyntaf.

LB: Sut ydych chi'n sicrhau fod agwedd ffydd CGM yn cael ei chynnwys: A oes llawer o ysgolion ffydd yn rhan o'ch proses?

PL: Nid oes gan GwE gyfrifoldeb dros hyfforddiant ysgolion ffydd ond cadarnhaodd fod ysgolion ffydd yn rhan o'r rhwydweithiau.

KR: Bydd angen i CCYSAGauC ystyried sut i gefnogi'r CYSAGau, os yw rhieni'n tynnu eu plant yn ôl i CGM enwadol o fewn yr ysgolion ffydd hynny. Mae angen sicrhau fod ysgolion ffydd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r maes llafur cytunedig.

PR: Pam nad yw GwE, yn wahanol i'r consortia eraill, yn cefnogi CYSAGau ac o ble mae'r CYSAGau lleol yn cael eu cefnogaeth?

PL: Mae hyn oherwydd cynllun hanesyddol y consortiwm. Bu GwE mewn bodolaeth es yr 8 mlynedd ddiwethaf. Yr unig gefnogaeth pwnc y mae GwE yn ei chynnig yw ar gyfer Mathemateg, Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Gan yr ALL y mae'r cyfrifoldeb dros CGM. Caiff y CYSAGau eu cefnogi gan yr ALL.

Yn y De, roedd cysylltiad hanesyddol gyda'r gwasanaethau cwricwlwm a'r consortia, ac mae hyn wedi parhau ac yn edrych yn wahanol dros yr 8 mlynedd diwethaf, o'i gymharu â GwE.

LB: Pwysleisiodd y gall ysgolion ffydd barhau i ddysgu eu cwricwlwm ffydd enwadol.

PW: Ai dyma'r amser i GwE gysylltu â'r CYSGAu i wahodd y CYSAGu i'r cyfarfod rhwydwaith?

RS: Nodwyd y dylai hyn fod yn rhywbeth i GwE ei ystyried yn y dyfodol.

DR: Am nifer o flynyddoedd roedd GwE yn cefnogi CYSAGau yng Ngogledd Cymru drwy gymorth amhrisiadwy Bethan James. Tynnodd GwE y gefnogaeth hon heb ymgynghori.

LJ: Cadarnhaodd fod cyswllt yn Wrecsam rhwng rhwydwaith lleol GwE i'r dyniaethau ac aelodau CYSAG.

VB: Mae hi'n cefnogi CYSAG Sir y Fflint. Yn Uwch Reolwr Gwella Ysgolion ac wedi bod yn ymgynghorydd AG. Maent yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn GwE ac mae cynrychiolaeth dda o ysgolion Sir y Fflint ar eu rhwydweithiau. Gobeithio bod CYSAG yn teimlo bod cefnogaeth.

PL: Egluro ei fod yn cyflwyno ar ran GwE. Yn cyflwyno strwythur GwE ar gyfer cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru ac yna mae CYSAGau sy'n cefnogi AG yn benodol.

MM: Mae Hodder Education yn cyhoeddi adnoddau i'r cwricwlwm newydd. A oedd unrhyw un wedi clywed am gynlluniau ar gyfer CGM?

RS: Heb glywed am unrhyw beth ac yn pryderu am gyhoeddwy'r yn creu adnoddau penodol gan fod hynny'n groes i ethos y cwricwlwm newydd.

PW: Wedi clywed eu bod yn bwriadu darparu adnoddau i CGM. Mae'n bwysig dilyn y broses ac yn pryderu nad ydym yn barod eto i fod yn datblygu adnoddau.

RB: Aeth Hodder Education at y Brifysgol gydag adnoddau AG enghreifftiol, ond fe wrthodwyd bod yn rhan ohono gan nad oeddent yn berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru.

RT: Daeth Hodder ato ef hefyd. Dywedodd ei bod yn rhy gynnar yn y broses, a bod angen aros nes bod y fframwaith wedi'i gyhoeddi.

HS: Cafodd Pennaeth AG mewn ysgol beilot gais i adolygu adnoddau Hotter ac mae'n amheus gan eu bod wedi cael eu hysgrifennu gan arbenigwyr AG yn Lloegr.

RS: Mae'n bwysig cyfleu'r neges hon i ysgolion, sef na fydd adnoddau Hodder yn addas i'r Cwricwlwm i Gymru, a'i bod yn rhy gynnar i ddatblygu adnoddau.

AK: Mae'r Gwasanaeth Addysg Gatholig yn mynd i gynnig cymorth ar-lein drwy sesiynau briffio ar-lein i aelodau Catholig y CYSAGau. Bydd y cymorth yn cynnwys disgrifio'r dulliau gweithredu a ddilynir mewn ysgolion Eglwys a sut byddant yn talu sylw i'r canllawiau CGM. Gobeithio y bydd hyn o gymorth i aelodau CYSAG.

CA: Yn pryderu nad yw ei GYSAG wedi cyfarfod ers 18 mis, a'i fod yn teimlo nad oedd yn gwybod beth oedd yn digwydd. Pwy sy'n cefnogi'r CYSAG hwn?

RS: Mae CA wedi codi pwynt pwysig. Mae CYSAG angen cefnogaeth Ymgynghorydd i fod yn effeithiol / iach. Mae CYSAG iach angen cefnogaeth CCYSAGauC iach. Dylai ymgynghorwyr gael eu penodi'n iawn i GYSAG a dylent gael yr amser a'r adnoddau i wneud eu gwaith yn iawn. Mae hi'n teimlo ei bod yn fater o'r ALI yn gwerthfawrogi rôl CYSAGau. Mae angen i ALLau fuddsoddi arian ac amser fel y gall CYSAGau gael cymorth yr ALI a bod yn rhagweithiol yn cefnogi eu hysgolion.

PW: Yn argymhell fod CCYSAGauC yn rhoi cefnogaeth i'r CYSAGau sy'n ei chael hi'n anodd ac yn awgrymu fod CCYSAGauC yn cyfarfod â nhw.

**GWEITHREDU: AP: Ychwanegu eitem agenda i gyfarfod Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn Ionawr 2022 'Sut i helpu'r CYSGAau sy'n ei chael hi'n anodd?'**

## **7. Materion Llywodraeth Cymru**

### **Diweddariad canllawiau CGM**

LJ: Mae canllawiau drafft CGM yn disgwyl cael eu gorffen. Cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y bydd copi dan embargo o'r canllawiau ar gael i GYSAGau cyn Nadolig, ond ni roddwyd dyddiad penodol. O ran dyddiad cyhoeddi, mis Rhagfyr yw'r sôn o hyd. Bydd Libby'n cyfarfod â Llywodraeth Cymru dydd Mercher a dydd Iau.

JD: A oes raid i'r canllawiau fynd gerbron y Senedd?

LJ: Nid oedd yn siŵr am hyn ond gall holi ac adrodd yn ôl i RS.

LB: A fyddant yn sicrhau fod y copi dan embargo i'r Canllawiau yn mynd i glercod CYSAG yn hytrach na'r Cyfarwyddwr Addysg?

LJ: Bydd hi'n gofyn am i'r copi gael ei anfon i Gyfarwyddwyr Addysg ac i Glercod CYSAG. Cadarnhaodd LJ nad copi i ymgynghori arno yw'r un dan embargo ond gellir ei ddefnyddio i baratoi cynadleddau maes llafur cytunedig.

**Gweithredu: LJ i ganfod a yw'r Canllawiau CGM angen mynd gerbron y Senedd.**

### **Dysgu Proffesiynol**

Adroddodd RS fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i CCYSAGauC ddatblygu ystod o adnoddau i helpu gyda dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r canllawiau CGM newydd.

Cyfarfu grŵp o'r Pwyllgor Gwaith â Tania Wigfell a Lisa Clark o Lywodraeth Cymru ar 14 Hydref 2021 i drafod costau'r prosiect a'r disgwyliadau. Yn dilyn y cyfarfod hwn, cyfarfu grŵp o'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Tachwedd 2021 i drafod canlyniadau'r cyfarfod ac i ddrafftio rhaglen waith a fyddai wedyn yn cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru.

Cysylltwyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) ynghylch penodi 10 arbenigwr i greu'r adnoddau. Dylai'r gweithgor gynnwys ystod eang o unigolion megis athrawon cynradd ac uwchradd, ymarferwyr, ac arbenigwyr sydd â brwdfrydedd a gwybodaeth am AG. Anfonwyd hysbyseb dwyieithog, gan y Gymdeithas, i'r Cyfarwyddwyr Addysg a'r Consortia, i'w anfon ymlaen i'w hysgolion. Cadarnhaodd LJ fod Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r hysbyseb drwy Dysg yn eu diweddariad misol. Y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau yw 3 Rhagfyr 2021. Roedd RS yn falch o adrodd fod tri mynegiant o ddiddordeb eisoes wedi dod i law gan y sector cynradd ac uwchradd. Ar ôl y dyddiad cau, bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod i benderfynu a fodlonwyd y gofynion i

gael cynrychiolaeth eang o unigolion neu a oes angen estyn allan eto i gael mwy o ddi-ddordeb.

Bwriedir i'r tîm fod yn ei le erbyn diwedd Rhagfyr 2021 i ddechrau ym mis Ionawr 2022. Wedi hynny, bydd adnoddau'n dechrau cael eu datblygu i ysgolion ar sut i weithio gyda'r canllawiau CGM a'r cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd hyn yn cael ei ledaenu i ysgolion drwy rwydweithiau Hwb.

Roedd RS yn annog pob CYSAG i rannu'r wybodaeth hon gydag ysgolion a sicrhau fod y Cyfarwyddwyr Addysg yn gwybod am yr hysbyseb ac yn sicrhau ei bod yn cael ei hanfon i'r ysgolion.

DG: Gofynnodd am gael copi gan nad oedd hi'n ymwybodol o'r hysbyseb hwn.

**Gweithredu: Yn dilyn y cyfarfod, LJ i anfon yr hysbyseb i a) clercod CYSAG iddynt ei hanfon ymlaen i'r ysgolion a b) i DG**

**Gweithredu: Holl aelodau CCYSAGauC i hyrwyddo'r hysbyseb yn eang i wneud yn siŵr ei bod yn cyrraedd cynrychiolaeth eang o unigolion.**

Mae'r broses hon yn mynd rhagddi a rhoddir adborth yng nghyfarfod nesaf CCYSAGauC.

## **8. Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig 2022**

Dyweddodd RS mai dyma ddechrau'n trafodaethau ar y pwnc ac y bydd yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Mawrth. Yna trosglwyddodd i LJ.

Dyweddodd LJ fod angen i GYSAGau fod yn cynllunio ar gyfer eu Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig (MLIC). Mae angen i'r meysydd llafur cytunedig gael eu mabwysiadu gan bob ALL erbyn adeg gweithredu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru ym Medi 2022.

Mae LJ yn argymhell fod y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynllunio cyn gynted ag y bo modd, yn enwedig gan fod rhai ymgynghorwyr yn newydd. Er enghraifft, mae CYSAG Wrecsam wedi pennu dyddiad 13 Ionawr, 2022, i gael cyfarfod cychwynnol, gyda chyfarfod terfynol ar ddiwedd Ebrill 2022.

Mae hi'n argymhell fod pob ymgynghorydd a ChYSAG yn cael cyngor cyfreithiol gan eu Hawdurdod Lleol eu hunain, ar gyfansoddiad y Gynhadledd a sut dylid ei rhedeg. Cyfrifoldeb yr ALL yw'r maes llafur cytunedig a'r gynhadledd sy'n ei ategu. Ar hyn o bryd ychydig o ganllawiau sydd ynghylch sut y dylid trefnu'r cynadleddau yma.

Rhaid i baratoi'r MLIC dalu sylw at Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau CGM. Nid oes angen manylion cyfarwyddol, ac ni ofynnir ac ni chaniateir am hyn yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

Y weledigaeth yw bod y canllawiau CGM yn sail i'ch maes llafur cytunedig. Mae hi'n gobeithio y bydd y Cynadleddau'n argymhell y Canllawiau CGM fel y maent. Os yw CYSAG yn dymuno

cynnwys manylion ychwanegol, dylai gael ei gynnwys fel atodiad er arweiniad yn unig, fel cefnogaeth ychwanegol ar lefel leol. Mae angen cymryd gofal i beidio â chynnwys gormod o elfennau cyfarwyddol (*prescriptive*).

Wrth alw cynhadledd maes llafur cytunedig, mae angen i awdurdodau lleol feddwl am aelodaeth y Gynhadledd. Mae'n bwysig cael aelodau o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn ogystal â'r rheiny sy'n cynrychioli grwpiau crefyddol.

PW: Ategodd yr angen i gael cyfansoddiad cywir i GYSAG. Mae angen bod yn amrywiol er mwyn gwneud yn siŵr na cheir heriau cyfreithiol. Gall PYCAG drefnu cyfarfodydd i Ymgynghorwyr i'w cefnogi drwy'r broses.

RS: Diolchodd i PW am y cynnig gan PYCAG i helpu ymgynghorwyr.

KR: Gwnaeth y pwynt fod argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol yn gred gref sy'n cyfateb i grefydd. Mae'n bwysig meddwl am hyn wrth sefydlu'r Gynhadledd a'r cyfarfodydd CYSAG.

HS: Argymhellodd anfon llythyr i atgoffa CYSAG am eu dyletswyddau statudol o safbwynt y MLIC a'r terfynau amser.

EE: Mynegodd ei bryder nad oedd CYSAG Blaenau Gwent wedi cwrdd ers 18 mis. Yn y llythyr gan CCYSAGauC sy'n cael ei anfon i GYSAGau, awgrymodd gynnwys brawddeg i atgoffa awdurdodau lleol am eu dyletswydd statudol i alw cyfarfodydd CYSAG.

**Gweithredu: Llythyr i'w anfon cyn gynted â phosibl gan Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC i'r Cyfarwyddwyr Addysg a Chlercod CYSAG par: Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig a phwysigrwydd gosod dyddiadau a'u dyletswyddau statudol**

LB: A oes gan GYSAGau ryddid o ran faint o ganllawiau ychwanegol i'w cynnwys yn atodiad y maes llafur cytunedig?

RS: Oes, mae rhyddid, ond dylid gochel rhag bod yn rhy gyfarwyddol.

LJ: Bydd y datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig yr un peth yn union ym mhob ysgol, mae gennym hefyd ganllawiau CGM a fydd yr un peth i bob ysgol. Gyda'r holl waith a chefnogaeth leol, byd ysgolion yn cael eu harwain at y penderfyniad cywir ond yn y pen draw gall ysgolion wneud eu penderfyniadau eu hunain.

PW: Ein hatgoffa fod pob CYSAG lleol wedi cael y cyfle i adrodd yn ôl ar lefel leol drwy'r broses gydwethredol, felly mae gennym berchnogaeth dros y maes llafur cytunedig.

PR: Gan feddwl am y cyfarfodydd MLIC ar ddiwedd Ebrill 2021, mae etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. A oes cyfnod o *purdah* cyn yr etholiadau lle nad oes hawl gyfreithiol gan GYSAGau i wneud penderfyniad?

PW: Bydd, fe fydd cyfnod felly. Bydd angen i'r cyfarfodydd i gadarnhau'r maes llafur cytunedig ddigwydd cyn y dyddiad hwn.

RT: Fel arfer mis cyn yr etholiadau.

VB: Eisiau sicrhau'r cydweithwyr, ein bod mewn lle cryf a bod gennym rwydwaith cydweithredol cryf i CGM. Ategu'r pwynt ein bod wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori, yn fwy nag unrhyw bwnc arall. Mae hyn yn gadarnhaol iawn, ac mae angen i ni sylweddoli hyn. Mae hi'n barod i gynnig ei chefnogaeth.

## **8.Cymwysterau Cymru**

Adroddodd RS y bydd aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn cwrdd â Chymwysterau Cymru ar ddiwedd Tachwedd/dechrau Rhagfyr 2021. Rhoddir adborth o'r cyfarfod hwn yng nghyfarfod mis Mawrth. Mae Cymwysterau Cymru yn ystyried y TGAU newydd. Mae'r gweithgor yn cynnwys aelodau o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC ac aelodau CCYSAGAuC sy'n athrawon.

## **9.Adroddiad o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2021**

Adroddodd RS fod y rhan fwyaf o drafodaethau cyfarfod y Pwyllgor Gwaith wedi codi eu pen yn y cyfarfod heddiw.

Bydd cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei drefnu wedi iddyn nhw dderbyn y dyddiadau a awgrymwyd. Mae pawb wedi cael diweddariad am gynnydd y canllawiau GCM.

Fel rhan o'r drafodaeth am ddysgu proffesiynol, soniodd John Meredith o'r Eglwys yng Nghymru eu bod yn trefnu cynhadledd hybrid, wyneb yn wyneb yn y Fenni ac ar-lein. Y dyddiad ar hyn o bryd yw 13 Mehefin 2022. Y thema yw Newid Hinsawdd ac mae'n cysylltu â'r Cwricwlwm CGM. Mae CCYSAGauC wedi derbyn cynnig i gael stondin yno, am ddim.

Mae CCYSAGauC yn ystyried cynnal cynhadledd rithwir. Y bwriad yw ei threfnu tua'r adeg y bydd y pecyn dysgu proffesiynol, y maent yn ei ddatblygu gyda Llywodraeth Cymru, yn dod yn fyw tua mis Ebrill / Mai 2022.

Cafwyd trafodaethau am gyfansoddiad CCYSAGauC, yn edrych ar ei pherthnasedd a sut mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn yn y cyfarfod nesaf.

Codwyd pryderon am yr arholiadau yn yr haf, yn enwedig y rhai TGAU, pryd y disgwylir i fyfyrwyr sefyll dau bapur arholiad 95 munud. Roedd nifer yn poeni am y pwysau ar fyfyrwyr. Mae llythyr yn cael ei baratoi i'w anfon i Lywodraeth Cymru yn mynegi pryder CCSYGAuC am les y myfyrwyr.

Mae CCYSAGauC yn datblygu datganiad i fynd gydag unrhyw adnoddau a rennir. Bydd hwn yn egluro nad yw'r adnoddau hyn yn cael eu cymeradwyo gan CCYSAGau o reidrwydd ond eu bod yn cael eu darparu fel gwybodaeth ddefnyddiol.

Mae CCYSAGauC yn ystyried newid ei enw wrth i GYSAGau fynd yn Gyngorau Ymgynghorol Safonol. Beth am CCYSAGauC? Bydd angen meddwl am hyn fel grŵp.

## 10. Diweddariadau:

**REC** - Bu TapS yng nghyfarfod diweddaraf REC ar ran CCYSAGauC. Adroddodd fod rhan helaeth o'r cyfarfod wedi'i roi i brosiect Crefydd a Bydolygon y REC. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig i AG yn Lloegr i gefnogi a ffurfio meysydd llafur cytûn mewn AG.

Er y bydd Cymru â rhywfaint o ran yn hyn, ni fydd y gwaith yn disodli dogfen ganllaw CGM a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru, yr ymgynghorir arni. Bydd CCYSAGauC yn parhau i adnabod unrhyw feysydd a all fod o ddefnydd i GYSAGau Cymru.

Mae'r cyfnod cyntaf yn dod i ben gyda'r adnoddau sy'n archwilio'r cysyniad o fydolygon bellach wedi'u cynhyrchu a'u cyhoeddi ar-lein. Mae'r ail gyfnod yn dechrau a'i nod yw adeiladau ar gynnyrch cyfnod 1 a rhoi'r weledigaeth ar waith. Y nod yw cwblhau'r prosiect cyfan erbyn Cyfarfod Blynyddol y REC yn 2024.

Mae tair carreg filltir bwysig rhwng nawr a 2024: a) Cynhyrchu llawlyfr i gynnwys diffiniadau a fydd yn amlinellu sut beth yw bydolygon mewn ymarfer b) Creu tri fframwaith ar gyfer bydolygon mewn AG drwy gynhyrchu astudiaethau achos a c) creu unedau gwaith a fydd yn adlewyrchu'r tri fframwaith.

Mae dogfennau'r REC ar gael ar eu gwefan. Cafwyd cyflwyniad diddorol am y canlyniadau o arolwg Ymddiriedolaeth Culham St Gabriels ar ganfyddiad y cyhoedd am addysg mewn bydolygon a chrefyddau. Holwyd 2000 o oedolion yn y DU. Gellir gweld y canlyniadau ar wefan Culham St Gabriels sy'n eithaf perthnasol i Gymru yn ogystal â Lloegr.

LB: Mae'r gwaith hwn am grefydd a bydolygon yn Lloegr.

### **AREIAC**

Neb yn bresennol i roi diweddariad

### **EFTRE**

Neb yn bresennol i roi diweddariad

### **MAGC**

PM: Ni roddwyd diweddariad er mwyn cadw'r cyfarfod ar amser.

RS: PR i anfon adroddiad ysgrifenedig i RS os yn briodol.

### **Rhwydwaith Rhyng-ffydd**

LJ: Mae David Hampshire wedi symud i swydd newydd sy'n golygu nad oes cynrychiolydd o'r Rhwydwaith yn mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC. Roedd LJ yn dymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd a bydd hi'n gweld os gellir cael cynrychiolaeth



o'r rhwydwaith yn y dyfodol. Cynhaliwyd yr wythnos ryng-ffydd ar y 14 - 21 Tachwedd 2021. Ceir enghreifftiau o'r gwaith ardderchog a wnaed yn ystod yr wythnos hon ar wefan y Rhwydwaith Rhyng-ffydd.

## PYCAG

Cadarnhaodd PW ei bod hi wedi cymryd drosodd fel Cadeirydd a bod PL wedi'i benodi'n Ddirprwy Gadeirydd. Adroddodd PW fod trafodaethau PYCAG yn debyg i'r rhai gafwyd heddiw. Dywedodd PW ei bod yn braf croesawu cydweithwyr newydd. Trafodwyd gweledigaeth, nodau a chyfansoddiad PYCAG a'r system addysg. Atgoffodd PW y grŵp mai panel ar gyfer arbenigwyr addysg yw PYCAG. Roedd PW yn gobeithio, fel Cadeirydd, cryfhau'r berthynas ymhellach rhwng PYCAG a CCYSAGauC.

Trafodwyd Cynadleddau'r Maes Llafur Cytunedig yn fanwl hefyd.

## 11. Gohebiaeth

RS: Darllenodd e-bost gan Gill Vaisey oedd yn hysbysu'r aelodau ei bod hi'n rhoi'r gorau i'w swyddi gyda CCYSAGauC. Diolchodd GV i'r grŵp am eu cyfeillgarwch a'u cefnogaeth broffesiynol ers ei hadeg fel Athrawes Ymgynghorol yng Ngwent yn 1992. Sicrhaodd GV bawb fod ei hangerdd dros hyrwyddo rhagoriaeth mewn AG yn aros. Eglurodd fod yr ymateb i'w phrosiect diweddaraf a'r llyfrau ddeilliodd o hwnnw, *Belonging and Believing*, yn rhyfeddol, ac yn creu mwy o gyfleoedd i gefnogi ysgolion. Bu gweithio gyda'r 8 teulu arbennig yma, pob un â bydolwg gwahanol, y rhan fwyaf yn byw yng Nghymru, yn uchafbwynt i'w gyfa. Mae hi'n teimlo'n freintiedig ac yn ddiolchgar i'r teuluoedd a'r cymunedau am gael y cyfle a'r profiad hwn, ac yn bwysicaf, i gael rhannu golwg ar eu bywyd teuluol, gydag eraill. Bydd hi'n parhau i gefnogi cydweithwyr ac athrawon gyda'r cwricwlwm newydd a'r symudiad o AG i CGM. Mae GV yn croesawu unigolion i gysylltu â hi os ydynt yn dymuno ei chefnogaeth.

Roedd RS am ddiolch o galon iddi yn bersonol ac ar ran CCYSAGauC, am ei blynyddoedd o ymrwymiad diflino i AG, i CCYSAGauC ac i'r CYSAGau yng Nghymru. Mae pawb wedi gwerthfawrogi ac wedi elwa llawer ar ei harbenigedd. Rydym yn dymuno'n dda iddi yn ei gwaith yn y dyfodol.

NB: Bûm yn gweithio gyda GV am flynyddoedd yn CYSAG Casnewydd a ChYSAG Sir Fynwy. Roeddwn bob amser yn cael fy synnu â'r hyn roedd hi'n gallu ei wneud. Mae ei gwaith gyda'r cymunedau yn esiampl i ni i gyd. Rwy'n dymuno'r gorau iddi ac yn diolch iddi am ei gwaith i'r CYSAGau a'r cymunedau.

PW: Bu GV yn gymorth anhygoel fel cydweithiwr a ffrind. Yn gyffrous dros ei phrosiect newydd a'i hadnoddau. Mae ei dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd yn ardderchog, a'r mathau hyn o adnoddau yw'r union beth sydd ei angen arnom. Diolch am bopeth.

CA: Gill yw'r rheswm rwyf i yma heddiw. Mae ei chraffter a'i dealltwriaeth o'r angen i ddod â phobl o bob ffydd ynghyd yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Rwy'n gweithio gyda hi ar ei phrosiect newydd ac mae fy wyres yn un o'r teuluoedd sydd yn cymryd rhan. Dangosodd Gill gymaint o fanylder yn sicrhau fod pob llyfr yn adlewyrchu eu bywyd teuluol. Gallwn ymddiried yn ei hadnoddau.

RS: Mae hyn yn dangos gymaint mae Gill yn cael ei gwerthfawrogi fel cydweithiwr a chyfaill. Mae hi'n cadw i fyny â datblygiadau AG ac wedi dangos ei bod hi'n arloesi mewn AG. Mae hi mor aml ar y blaen. Gobeithio y gallwn gyfarfod i fynegi'n diolchgarwch wyneb yn wyneb.

Cadarnhaodd AP y bydd hi'n anfon e-bost i ddiolch i GV ac i'w llongyfarch ar ei gwaith newydd.

Dau ddarn arall o ohebiaeth

1) Adroddiadau blynyddol

Diolch i'r CYSAGau hynny sydd wedi anfon eu hadroddiadau blynyddol.

Cofiwch mai'r dyddiad cau i dderbyn Adroddiadau Blynyddol yw 30 Rhagfyr 2021. Anfonwch gopi i CCYSAGauC, Llywodraeth Cymru ac i unrhyw sefydliadau lleol sy'n derbyn yr adroddiad fel arfer.

**Gweithredu: AP i anfon y cyswllt yn Llywodraeth Cymru i dderbyn yr Adroddiad Blynyddol.**

2) Cymwysterau Cymru

Cais a anfonwyd gan Ian Mitchell i LJ am gysylltiadau posibl i gefnogi grŵp cydlyniaeth. Maent yn gobeithio cynyddu'r gynrychiolaeth ar grŵp rhwydwaith Maes Dysgu a Phrofiad ehangach.

## **12. Unrhyw fater arall (i'w gytuno arno o flaen llaw gyda'r Cadeirydd)**

Dim

## **13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Mawrth 2021 I'w gadarnhau**

Dywedodd RS y bydd y cyfarfod nesaf ar-lein ac y bydd yn cael ei letya gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot ym mis Mawrth 2022. Y dyddiad i'w anfon cyn gynted â phosibl.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm

## CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL

**REPORT TO: CAERPHILLY STANDING ADVISORY COUNCIL ON  
RELIGIOUS EDUCATION**

**DATE: 28TH MARCH 2022**

**SUBJECT: EXECUTIVE VOTING 2022 - NOMINATIONS TO THE  
WASACRE EXECUTIVE COMMITTEE**

### **A PURPOSE OF REPORT**

To inform SACRE of the correspondence received from WASACRE in relation to nominations for new Members to the WASACRE Executive Committee.

### **B RECOMMENDATION**

Members are asked to consider the attached information and discuss any nominations that they wish to make, in order for these to be forwarded to WASACRE by Friday 8th April 2022.

### **C SUPPORTING INFORMATION**

Appendix 1 Information from the WASACRE Secretary - Nominations to the WASACRE Executive Committee 2022.

This page is intentionally left blank



*Cadeirydd /Chair:* Mrs. Rachel Samuel

*Ysgrifennydd/Secretary:*  
Ms Alice Parry

31 January 2022

Dear Clerk to SACRE,

Following our normal annual process, I am writing to invite SACREs to make nominations for new members of the WASACRE Executive Committee. Please would your SACRE discuss any nomination that they wish to make at their spring term SACRE meeting. Please note that if your SACRE is already represented on the Executive committee, with the exception of Secretary, Assistant Secretary and Treasurer, according to the WASACRE Constitution you will not be able to nominate a person from your own SACRE at this time. However, this does not prevent you from nominating a person from another SACRE.

You will notice in the attached members list that there are 4 places available, one being the Vice Chair role. It is vital for WASACRE to retain a full and varied membership in order to continue its good work, including being a stakeholder for the Curriculum for Wales. As such we ask for your careful consideration of this request and hope that we receive some nominations.

Please find attached a proforma that should be completed and returned to me at the above email/postal address by **Friday 8 April 2022**. I will send to you the list of the nominations before **Friday 6 May 2020**, so that your SACRE is able to discuss them in their summer term meeting in time for the vote at the Association's AGM in June.

Please note there is an expectation that nominees will be available to attend executive meetings regularly should they be successful in the election at the AGM.

We would like to thank you and your members for your assistance in this matter.

Yours sincerely,

*A Parry*

Alice Parry

Secretary to WASACRE

This page is intentionally left blank



*Cadeirydd /Chair:* Mrs. Rachel Samuel

*Ysgrifennydd/Secretary:*  
Ms Alice Parry

31 Ionawr 2022

Annwyl Glerc CYSAG,

Gan ddilyn ein proses flynyddol arferol, rwyf yn ysgrifennu i wahodd CYSAGau i gynnig enwebiadau am aelodau newydd i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'ch CYSAG yn trafod unrhyw enwebiadau y dymunant eu cynnig. Sylwer, os yw'ch CYSAG yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith yn barod, ac eithrio'r Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol a'r Trysorydd, yn ôl Cyfansoddiad CCYSAGauC, ni fyddwch yn gallu enwebu rhywun o'ch CYSAG chi y tro hwn.

Fe sylwch yn y rhestr aelodau sydd ynghlwm mae 4 lle ar gael, gan gynnwys rôl is-gadeirydd. Mae'n hanfodol fod CCYSAGauC yn cadw aelodaeth lawn ac amrywiol er mwyn parhau â'i waith da, yn cynnwys bod yn rhanddeiliaid i'r Cwricwlwm i Gymru. Gofynnwn i chi felly rhoi ystyriaeth ystyrlon cais hwn a gobeithio y derbyniwn rai enwebiadau.

Ynghlwm y mae ffurflen y dylid ei llenwi a'i dychwelyd i mi ar y cyfeiriad e-bost /post uchod erbyn dydd Gwener 8 Ebrill 2022. Byddaf yn anfon y rhestr enwebiadau i chi cyn dydd Gwener 6 Mai 2022, fel y gall eich CYSAG eu trafod yng nghyfarfod tymor yr haf mewn pryd ar gyfer y bleidlais yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym mis Mehefin.

Sylwer y bydd disgwyl i'r enwebeion fod ar gael i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor gwaith yn rheolaidd os ydynt yn llwyddiannus yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin.

Hoffem ddiolch i chi a'ch aelodau am eich cymorth yn y mater hwn.

Yn gywir,

*A Parry*

Alice Parry

Ysgrifennydd i Gymdeithas CYSAGau Cymru

This page is intentionally left blank





**Aelodaeth Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC / Membership of WASACRE Executive Committee  
2021/2022**

Cadeirydd / Chair – Rachel Samuel (CNP / Neath Port Talbot)

Is-Gadeirydd / Vice Chair – Rev. Dr Tania ap Sion (Wrecsam / Wrexham)

Ysgrifennydd / Secretary – Alice Parry (Pen-y-bont / Bridgend)

Ysgrifennydd Cynorthwyol / Assistant Secretary - Libby Jones (Wrecsam / Wrexham)

Trysorydd / Treasurer – John Mitson (Powys)

Cyn-Gadeirydd diweddaraf / Immediate Past Chair – Rev. Edward J. Evans (Pen-y-bont / Bridgend)

Cyn-Ysgrifennydd diweddaraf / Immediate Past Secretary – Paula Webber

Cynrychiolydd o PYCAG / Representative of NAPfRE – Paula Webber

**Aelodau cyffredinol / Executive members:**

Mathew Maidment- RCT (period of office- 2019-2022)

Suzanne Gooding – Sir Fynwy / Monmouthshire (period of office 2019-2022)

Marged Williams and Lucy Grant – Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan (2019-2022)

Phil Lord – Sir Ddinbych / Denbighshire (2020-2023)

John Meredith – Powys (2020-2023)

Kathy Riddick – Blaenau Gwent (2021-2024)

\* Cworwm yw 5 aelod / Quorum is 5 members

\*\* Bydd pleidlais mwyafrif yn cyfrif / Majority vote will count

This page is intentionally left blank



**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGC/  
Nominations to WASACRE Executive Committee**

**2022**

**ENW CYSAG / SACRE NAME:**

<b>Enwebiad / Nomination</b>	<b>Enw / Name</b>	<b>Cyfeiriad e-bost/ E-mail address</b>
Pwyllgor Gwaith/ Executive Committee		
Pwyllgor Gwaith/ Executive Committee		
Pwyllgor Gwaith/ Executive Committee		
Is-gadeirydd / Vice Chair		

This page is intentionally left blank

## CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL

**REPORT TO: CAERPHILLY STANDING ADVISORY COUNCIL ON  
RELIGIOUS EDUCATION**

**DATE: 28TH MARCH 2022**

**SUBJECT: PROPOSED CHANGES TO THE WASACRE  
CONSTITUTION**

### **A PURPOSE OF REPORT**

To seek Caerphilly SACRE's comments on the proposed changes to the WASACRE constitution.

### **B BACKGROUND**

The WASACRE Executive has recently reviewed the WASACRE Constitution as a number of points require further clarification.

A final draft of the proposed revised constitution is attached to this report and has also been circulated to all SACRE Members in advance of the Spring Term meeting.

Caerphilly SACRE are invited to comment on the proposed revised constitution before it is approved at the WASACRE AGM. The closing date for comments is 13th May 2022.

### **C RECOMMENDATION**

For SACRE to consider the proposed revised WASACRE constitution and offer any comments, in order for these to be forwarded to WASACRE by 13th May 2022.

### **D SUPPORTING INFORMATION**

Appendix 1 Proposed revised WASACRE Constitution

This page is intentionally left blank



# WALES ASSOCIATION OF SACREs

## CONSTITUTION

### **1. *The name of the Association***

The name of the Association shall be the Wales Association of SACREs (hereinafter called 'the Association')

### **2. *The Aims of the Association***

- (i) to provide a forum in Wales for SACREs to discuss concerns and as necessary make representations to other bodies;
- (ii) to enable co-operation between LAs and their SACREs and Agreed Syllabus Conferences in pursuing common interests in the development of the religious education curriculum and collective worship;
- (iii) to assist SACREs in fulfilling their responsibilities by the sharing of experience and expertise;
- (iv) to undertake any other activities which may benefit religious education and collective worship in Wales.

### **3. *Membership and duties***

- (i) Each SACRE in Wales is eligible to be a member of the Association.
- (ii) Each SACRE shall be invited to pass a resolution recommending its LA to support membership of the Wales Association of SACREs.
- (iii) The Association shall meet three times annually.
- (iv) Extraordinary meetings of the Association may be called by the Chairperson or at the request of a member SACRE. The Chairperson, in consultation with the officers, may alter arrangements for meetings of the Association in an emergency.
- (v) Each member SACRE shall be entitled to send up to four representatives, which may include professional representation, to meetings. Where a SACRE provides an Officer or a Member of the WASACRE Executive the person so provided must be one of the four representatives that that SACRE appoints to represent it at a

WASACRE meeting. At any meeting at which a vote is called for each SACRE will be entitled to one vote.

- (vi) A meeting of the Association shall be deemed to be quorate when not fewer than one third of member SACREs are represented.
- (vii) Any proposal to amend the Constitution shall be communicated to SACREs at least four months prior to the AGM at which any such amendment will be considered. The AGM shall be held as part of the Association's summer meeting.
- (viii) The Association can if it so wishes invite bodies to have observer status in the Association. Such observers can only speak with the permission of the Chairperson. **A list of bodies that have been granted observer status is held by the Secretary. Other bodies may be added to this list from time to time. Other bodies can be given observer status on a meeting-by-meeting basis at the invitation of the Chair. When discussing whether a body should be given observer status consideration should be given to how the body will support the Association in achieving its aims.**  
(See Note 1)
- (ix) At a meeting of the Association, any members of the SACRE, whose LA or Council is hosting the meeting, shall be entitled to attend the meeting as observers.

#### 4. Executive Committee

- (i) There shall be an Executive Committee, which shall consist of the following:
  - a) The Officers, who shall be  
Chairperson  
Vice Chairperson  
Secretary  
Assistant Secretary  
Treasurer
  - b) six members elected from member SACREs other than those from which the Chairperson and Vice Chairperson have been provided
  - c) The immediate past Chairperson
  - d) The immediate past Secretary, **who shall be a member of the Executive Committee for a period not exceeding two years from the date of ceasing to be Secretary** (See note 2)
  - e) A representative of NAPfRE, **who does not of necessity have to be a member of a local SACRE** (See note 3)
  - f) WASACRE's representative to the RE Council of England and Wales
  - g) WASACRE's representative to EFTRE
  - h) WASACRE's representative to the Inter Faith Network for the UK  
**The roles f), g), and h) should be appointed in accordance with Para 4(vii). Those persons so appointed would then become a member of the Executive Committee for such time as they hold those roles.** (See note 4)
- (ii) **On an occasion when a vote is called for at an Executive Committee meeting each person on the Executive Committee shall have one, and only one, vote regardless of the number of Executive Committee positions held by that person.**  
(See note 5)



- (iii) Officers of the Association (Chairperson, Vice-chairperson, ~~Secretary, Assistant Secretary, and Treasurer~~) (see note 6) shall be elected and / or re-elected at an AGM. No one SACRE may provide more than one officer in any one year. No one Chairperson may hold office for more than two consecutive years, **except under exceptional circumstances. Such circumstances are to be discussed and agreed at the AGM at which the Chair would normally have relinquished office.** (See note 7). When a Chairperson ceases to hold that office the Vice Chairperson shall succeed to it, subject to the requirement in para. (4iii). The Chairperson may resign their office at any time during their tenure of office to be replaced by the Vice Chairperson as would be the case when the Chairperson completes their term of office. When the Vice Chairperson assumes the office of Chairperson under such circumstances Year 1 of the Chairperson's term of office shall not begin until the next AGM.
- (iv) If an officer **resigns from their office or** is no longer a member of, or associated with, a SACRE he or she shall cease to hold that office immediately. A replacement will be appointed at the next meeting and will serve until the next AGM. If there is urgent need for a replacement the Executive Committee is empowered to make an appointment, which will be effective until the next meeting of the Association.
- (v) With the exception of the Secretary, Assistant Secretary and Treasurer no one SACRE may provide more than one member of the Executive Committee at any one time. Elected Members of the Executive Committee, subject to the requirements of para 4(iii) and 4(v) shall serve for a period of three years, according to a rota whereby two of their number shall complete their period of office each year.
- (vi) If a member of the Executive Committee **resigns from the Executive Committee or** is no longer a member of, or associated with, a SACRE, he or she will cease to be a member of the Executive Committee. The SACRE that provided such a person will be entitled to nominate a replacement member of the Executive Committee, who will serve until the end of the term for which the replaced member was originally elected. **In the event that the SACRE from which the person ceasing to be a member of the Executive Committee fails to replace the former member within a period of six months from the date of the vacancy the Executive Committee shall make the necessary arrangements to invite nominations for the vacant post from all other member SACREs. The person elected as a result of such nominations shall serve for the remainder of the term for which the replaced member was originally elected. At the end of that term, the replacement Executive Committee member may, if they so wish, seek nomination for the vacant position in the usual way.** (See note 8)
- (vii) Appointments as WASACRE's Representatives on a) The RE Council of England and Wales; b) EFTRE, and c) Inter Faith Council for the UK shall be made by the Executive Committee after seeking expressions of interest from members of SACREs in association with WASACRE.
- (viii) **The Executive Committee may appoint a Minute Secretary, to whom an honorarium shall be paid, who shall minute the meetings of the Executive Committee and the full meeting of WASACRE. The Minute Secretary will not be a member of the Executive Committee and therefore shall have no voting rights at neither an Executive Committee Meeting nor at a full meeting of WASACRE unless the person so appointed is already a member of the Executive Committee**

in their own right.  
(See note 9)

- (ix) The Executive Committee will only have executive powers that have been delegated to them at a meeting of the Association. The quorum shall be five and the majority vote will count.

## **5. Procedures**

- (i) In the absence of the Chairperson, the Vice Chairperson, if present, shall take the Chair. Otherwise the first business of the meeting shall be to elect a member to the Chair for that meeting. However, if the Chairperson or Vice Chairperson arrives during the meeting, the Vice Chairperson, or the member in the Chair shall relinquish it once the item of business in hand has been completed.
- (ii) (a) The Chairperson will move “that the minutes of the last meeting be signed as an accurate record”.  
  
(b)The only part of the minutes which can be discussed is their accuracy. As soon as any question about accuracy has been dealt with the Chairperson is authorized to sign the minutes as an accurate record of that meeting.
- (iii) Any member SACRE may request the Chairperson to include an item on the Agenda for meetings of the Association without the requirement for it to be seconded. Requests for items for inclusion on the agenda must be made at least four weeks in advance of any meeting. Any motion moved at the meeting must be seconded.
- (iv) In the event of a vote being required on any proposal each member SACRE shall have one vote and a decision reached by a simple majority. The Chairperson will have a casting vote other than at an election of the Vice Chairperson or a member of the Executive Committee.
- (v) Meetings and correspondence shall be conducted bilingually.
- (vi) Any other matters, of which notice has been given, may be added by the Chairperson.
- (vii) The Chairperson shall have the right to invite to a meeting of the Executive Committee such a person or persons who in his/her opinion has a contribution to make towards the Agenda of that meeting. Such an invitee shall have the right to speak and be heard, but shall not have the right to vote on any matter on which a vote is called for.

## **6. Subscription and Finance**

- (i) The Association’s financial year shall be the financial year, i.e. it shall run from April 1<sup>st</sup> in any year until March 31<sup>st</sup> the following year.
- (ii) There shall be an annual subscription to be determined at the AGM.

## CODE OF PRACTICE FOR THE CONDUCT OF ELECTIONS

The following Code of Practice is recommended for the conduct of elections:-


- (a) Nominations for election to the WASACRE Executive Committee shall be invited during the spring term each year. The date by which nominations should be received from SACREs will be advised by WASACRE at the beginning of the spring term. All persons nominated should supply a paragraph ~~(some 100 words)~~ **of not more than 200 words** about themselves.  
(See note 10)
- (b) The SACRE making a nomination must ensure that the person nominated is willing to serve.
- (c) The Secretary shall send a list of those nominated, together with the paragraphs provided, to reach each SACRE early in the summer term to allow opportunity for each SACRE to consider at its summer meeting how to cast its vote.
- (d) In the event of two or more persons receiving an equal number of votes at an election for the Vice Chairperson or the Executive Committee, the Chairperson shall decide the matter by drawing a “name out of the hat”. The person whose name is so drawn shall be declared the successful candidate.
- (e) **If, by the closing date for nominations to an officer position and / or to the Executive Committee membership, the number of nominations received for each respective position shall equal the number of positions vacant and requiring to be filled at the forthcoming AGM then at that AGM where an Election is an Agenda item the following order shall happen:**
  - (i) **The Chair of the meeting, at that point of the Agenda, shall make a statement, for the purposes of clarification, intimating that the number of nomination(s) equals the number of vacant positions and therefore no election(s) is necessary.**
  - (ii) **The nominees will be deemed to be elected.**  
(See note 11)
- ~~(e)~~ (f) (see note 12)  
If there are insufficient persons nominated by SACREs prior to the AGM to fill vacancies on the Executive Committee or Vice Chairperson, nominations shall be sought from the floor. Such nominations shall be proposed and seconded as is customary. If more than the required number of nominations is received from the floor a ballot shall be held of those persons so nominated. Such a ballot will not include any person nominated before the AGM, such a person(s) shall be appointed to the Executive Committee before other nominations for any vacancy are invited.

## Notes to suggested amendments to 2018 Constitution

1. Whilst not being too restrictive in offering some kind of guidelines about “Observer Status” we recommend that there be some sort of “qualification”. This would be useful in deciding whom to invite to “Observer Status” and would give a rationale as to why one organisation is offered such status and another is not. The current wording only seems to indicate that an invitation to Observer Status would need to be discussed and agreed by the Association. The introduction of the suggested wording clarifies the method of offering “observer Status” to organisations.
2. In our current Constitution the position of Immediate Past Secretary is not time limited, as are the roles of Chair, Vice Chair and Immediate Past Chair. This means that the Immediate Past Secretary could be a member of the Executive Committee for an unlimited number of years. It is suggested that it be time limited to no more than two years from the time the person ceased to be secretary and became Immediate Past Secretary.
3. NAPFRE is the “sister organisation of WASACRE. The relationship between WASACRE and NAPFRE is such that they are deeply connected and reliant. As such, NAPFRE provides a representative to the WASACRE Exec in order to preserve and support that working relationship. It is in a different position to where WASACRE provides a representative to, and pay a subscription to, other outside bodies, eg REC, etc. By removing the requirement that the NAPFRE representative be a member of a local SACRE it allows NAPFRE to appoint the person whom they deem most suitable as their representative on the WASACRE Executive Committee.
4. It is necessary that the holders of roles f), g) and h) are already members of the Executive Committee or are current members of a SACRE in order to comply with the requirement of Para 4 (vi). Provision for making these appointments is provided for in Para 4 (vii) [Appointments as WASACRE’s Representatives on a) The RE Council of England and Wales; b) EFTRE, and c) Inter Faith Council for the UK shall be made by the Executive Committee after seeking expressions of interest from members of SACREs in association with WASACRE.]
5. Introduce a new paragraph to make it explicit that members of the Executive Committee have only one vote per person. It may be that one person on the Executive Committee holds two or more “roles” for a variety of reasons. This new paragraph is intended to make clear that each member of the Executive Committee shall have only one vote, not a multiplicity of votes according to the number of roles they hold. With the introduction of this new paragraph as 4(ii) all succeeding paragraphs are renumbered.
6. Remove these officers from this paragraph, as they are not elected officers, but officers appointed by the Exec and whose appointments the full termly meeting ratifies immediately after their appointment.
7. In view of the problems caused in recent years with unexpected resignations and the pandemic, etc. it seems sensible to include a provision for extending the term of office of the Chair. Hopefully the provisions of this sub-paragraph will not be needed again for a considerable time, if ever, but at least including such a phrase as “except under exceptional.....relinquished office” provision is made for any such eventuality in the future.

8. The additional provision to this paragraph that should a SACRE from which a person is no longer a member of the Executive Committee not appoint a successor within a reasonable space of time this will allow the Executive to fill a vacancy caused by resignation of otherwise so that the Executive shall be back to full membership at the earliest opportunity.
9. This new paragraph makes provision for the Executive Committee to appoint an “outside person” as Minute Secretary. Such an appointee does not have to be associated with or be a member of a SACRE and therefore is ineligible to vote on any matter. However, it is possible that the Executive may appoint as Minute Secretary a person who is already a member of the Executive Committee. In such circumstances the Minute Secretary shall have a vote in the normal way.
10. A new word limit is proposed because 100 words appears to be insufficient to gain an understanding of the person being nominated. However, a word limit is required and so a 200-word limit is proposed.
11. It may seem an obvious point that if the number of nominations equals the number of vacancies of officers or executive members then they are appointed. However, for clarification and for the purposes of the minutes of the meeting, and for future reference, it would be good practice for such a statement to be made at the point in the meeting at which voting would take place to explain why no vote has been taken.
12. With the introduction of a new paragraph (e) the current paragraph (e) becomes paragraph (f).

This page is intentionally left blank



# CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

## CYFANSODDIAD

### 1. Enw'r Gymdeithas

Enw'r Gymdeithas fydd Cymdeithas CYSAGau Cymru (yma, 'y Gymdeithas' fydd hi'n cael ei galw o hyn ymlaen)

### 2. Amcanion y Gymdeithas

- (i) darparu fforwm yng Nghymru ar gyfer y CYSAGau i drafod materion o bwys iddynt, ac i ddwyn achosion i sylw cyrff eraill pan fo gofyn;
- (ii) hwyluso cydweithredu rhwng Awdurdodau Lleol, eu CYSAGau a Chynadleddau Maes Llafur Cytunedig, i fynd ar drywydd diddordebau cyffredin ynglŷn â datblygu cwricwlwm addysg grefyddol ac addoli ar y cyd;
- (iii) helpu'r CYSAGau i gyflawni eu gorchwylion trwy rannu profiad ac arbenigedd;
- (iv) ymgymryd ag unrhyw weithgareddau eraill a allai fod o fudd i addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru.

### 3. Aelodaeth a dyletswyddau

- (i) Mae pob un o GYSAGau Cymru yn gymwys i fod yn aelod o'r Gymdeithas.
- (ii) Bydd pob CYSAG yn cael ei wahodd i basio penderfyniad yn argymhell bod ei ALL yn cymeradwyo ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru.
- (iii) Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.
- (iv) Gall cyfarfodydd arbennig o'r Gymdeithas gael eu cynnal ar alwad y Cadeirydd neu ar gais aelod-GYSAG. Bydd modd i'r Cadeirydd, wedi ymgynghori â'r swyddogion eraill, newid y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Gymdeithas mewn achos brys.
- (v) Bydd hawl gan bob aelod-GYSAG i anfon pedwar cynrychiolydd a all gynnwys cynrychiolaeth broffesiynol, i gyfarfodydd. Pan mae CYSAG yn cynnig Swyddog neu Aelod i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC, mae'n rhaid i'r sawl a gynigir fod yn un o'r pedwar cynrychiolydd y mae'r CYSAG yn eu penodi i'w gynrychioli mewn cyfarfod o'r Gymdeithas. Mewn unrhyw gyfarfod lle gelwir am bleidlais, bydd gan bob CYSAG hawl i un bleidlais.

- (vi) Bydd cyfarfod o'r Gymdeithas yn cael ei ystyried yn un â chworwm iddo pan na fo dim llai na thraean o'r aelod-GYSAGau yn cael eu cynrychioli.
- (vii) Os bydd bwriad o gwbl i newid y cyfansoddiad bydd raid rhoi gwybod i'r CYSAGau o leiaf bedwar mis cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) a fydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw newid felly. Cynhelir y CCB fel rhan o gyfarfod haf y Gymdeithas.
- (viii) Os bydd yn dymuno, gall y Gymdeithas wahodd cyrff i gael swyddogaeth sylwedydd yn y Gymdeithas. Dim ond os bydd y Cadeirydd yn caniatáu y caiff sylwedyddion o'r fath ddweud gair. **Mae gan yr Ysgrifennydd restr o gyrff sydd wedi cael statws sylwedydd. Gellir ychwanegu cyrff eraill at y rhestr hon o bryd i'w gilydd. Gellir rhoi statws sylwedydd i gyrff eraill ar sail cyfarfod unigol ar wahoddiad y Cadeirydd. Wrth drafod a ddylid rhoi statws sylwedydd i gorff arbennig, dylid ystyried sut gall y corff hwnnw gefnogi'r Gymdeithas i gyflawni ei nod.**
- (ix) Bydd hawl gan unrhyw aelodau o'r CYSAG sydd â'u ALL neu Gyngor yr un sy'n croesawu'r cyfarfod hwnnw i fod yno fel sylwedyddion.

#### 4. Y Pwyllgor Gwaith

- (i) Fe fydd Pwyllgor Gwaith, a fydd yn cynnwys y canlynol:
  - a) Y Swyddogion, sef  
Cadeirydd  
Is Gadeirydd  
Ysgrifennydd  
Ysgrifennydd Cynorthwyol  
Trysorydd
  - b) chwe aelod a etholwyd o aelod-GYSAGau ar wahân i'r rheiny y darparwyd y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd ohonynt
  - c) Y cyn-Gadeirydd diweddaraf
  - d) Y cyn-Ysgrifennydd diweddaraf, **a fydd yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith am gyfnod ddim hwy na dwy flynedd o'r dyddiad iddo/iddi beidio â bod yn Ysgrifennydd** (Gweler nodyn 2)
  - e) Cynrychiolydd o PYCAG, **nad oes raidd iddo/iddi o reidrwydd fod yn aelod o GYSAG lleol** (Gweler nodyn 3)
  - f) Cynrychiolydd CCYSAGauC ar Gyngor AG Cymru a Lloegr
  - g) Cynrychiolydd CCYSAGauC ar EFTRE
  - h) cynrychiolydd CCYSAGauC ar Rwydwaith Rhyng-ffydd y DU  
**Dylai swyddi f), g), a h) gael eu penodi yn unol â Pharagraff 4 (vii). Byddai'r unigolion hynny a benodwyd yn dod wedyn yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith am y cyfnod y maent yn dal y swyddi hyn. (Gweler nodyn 4)**
- (ii) **Ar achlysur pan fydd angen pleidleisio yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith, bydd gan bob unigolyn ar y Pwyllgor Gwaith un, ac un bleidlais yn unig, waeth beth yw nifer y swyddi sydd gan yr unigolyn hwnnw ar y Pwyllgor Gwaith. (Gweler nodyn 5)**
- (iii) Bydd swyddogion y Gymdeithas (Cadeirydd ac Is-gadeirydd) (gweler nodyn 6) yn cael eu hethol a / neu eu hail-ethol mewn Cyfarfod Blynyddol. Ni chaiff un



CYSAG ddarparu mwy nag un swyddog mewn unrhyw un flwyddyn. Ni chaiff Cadeirydd ddal y swydd am fwy na dwy flynedd yn olynol, **ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Dylai amgylchiadau o'r fath gael eu trafod a'u cytuno arnynt yn y CCB ble byddai'r Cadeirydd fel arfer wedi rhoi'r gorau i'w swydd.** Pan ddaw tymor y Cadeirydd yn y Gadair i ben bydd yr Is Gadeirydd yn dod yn Gadeirydd, yn amodol ar y gofyniad ym mharagraff (4iii). Gall y Cadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg yn ystod eu tymor a bydd yr Is Gadeirydd yn dod yn eu lle, fel byddai'n digwydd pan mae tymor y Cadeirydd yn dod i ben. Pan mae'r Is Gadeirydd yn cymryd swydd y Cadeirydd mewn amgylchiadau o'r fath, ni fydd Blwyddyn 1 tymor y Cadeirydd yn y swydd yn dechrau hyd nes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

- (iv) **Os yw swyddog yn ymddiswyddo o'u swydd neu ddim** bellach yn aelod mewn CYSAG nac yn dal dim cysylltiad chwaith, bydd yn gorfod rhoi'r gorau i'w swydd ar unwaith. Bydd rhywun yn cael ei benodi yn ei le yn ystod y cyfarfod dilynol, a bydd yn gwasanaethu tan y CCB nesaf. Os oes angen llenwi'r swydd ar unwaith bydd hawl gan y Pwyllgor Gwaith i wneud penodiad dros dro a fydd mewn grym tan gyfarfod nesaf y Gymdeithas.
- (v) Ac eithrio'r Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol a'r Trysorydd, ni chaiff yr un CYSAG gyflenwi mwy nag un aelod o'r pwyllgor gwaith ar unrhyw adeg. Bydd Aelodau Etholedig y Pwyllgor Gwaith, yn amodol ar ofynion paragraffau 4(iii) a 4(v), yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd, yn ôl trefn drwy'r hon y bydd dau ohonynt yn cwblhau eu cyfnod yn y swydd bob blwyddyn.
- (vi) **Os yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn ymddiswyddo o'r Pwyllgor Gwaith neu** os nad yw bellach yn aelod o GYSAG nac yn dal dim cysylltiad chwaith bydd yn peidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Bydd hawl gan y CYSAG a ddarparodd y person hwn, i enwebu aelod arall i'r Pwyllgor Gwaith, a fydd yn gwasanaethu tan ddiwedd y tymor yr etholwyd yr aelod gwreiddiol ar ei gyfer. **Pe digwydd nad yw'r CYSAG lle'r oedd yr aelod a beidiodd â bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn methu cael rhywun yn ei le o fewn chwe mis o ddyddiad y lle gwag, bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i wahodd enwebiadau i'r swydd wag gan bob aelod-GYSAG arall. Bydd y sawl a etholwyd o ganlyniad i'r enwebiadau hyn yn gwasanaethu am weddill y tymor yr etholwyd yr uniglyn gwreiddiol ar ei gyfer. Ar ddiwedd hwnnw, gall yr aelod ddaeth ar y Pwyllgor Gwaith, os yw'n dymuno, ofyn am enwebiad am y swydd wag yn y ffordd arferol.** (Gweler nodyn 8)
- (vii) Bydd penodiadau fel Cynrychiolwyr CCYSAGauC ar a) Cyngor AG Cymru a Lloegr; b) EFTRE; ac c) Cyngor Rhyng-ffydd y DU yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith ar ôl gofyn am fynegiannau o ddiddordeb gan aelodau CYSAGau mewn cysylltiad â CCYSAGauC.
- (vii) Dim ond pwerau gweithredol sydd wedi eu dirprwyo iddo mewn cyfarfod o'r Gymdeithas fydd gan y Pwyllgor Gwaith. Pump fydd yn gwneud cworwm a bydd pleidlais fwyafrif yn sefyll.
- (viii) **Gall y Pwyllgor Gwaith benodi Ysgrifennydd Cofnodion, a fydd yn derbyn tâl, i gofnodi cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a chyfarfod llawn CCYSAGauC. Ni fydd yr Ysgrifennydd Cofnodion yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith ac felly ni fydd ganddo/ganddi hawliau pleidleisio yng Nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith nac mewn cyfarfod CCYSAGauC llawn oni bod y sawl a benodwyd eisoes yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn ei rinwedd ei hun.** (Gweler nodyn 9)

**5. Y Trefniadau**

- (i) Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd yr Is Gadeirydd yn eistedd yn y gadair. Fel arall, gorchwyl gyntaf y cyfarfod fydd ethol aelod i'r Gadair ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Sut bynnag, os bydd y Cadeirydd neu'r Is Gadeirydd yn cyrraedd yn ystod y cyfarfod, bydd yr aelod sydd yn y Gadair yn symud ar ôl i'r eitem o dan sylw ddod i ben.
- (ii) (a) Bydd y Cadeirydd yn dwyn cynnig gerbron "bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cael eu llofnodi fel rhai cywir".  
  
(b) Yr unig ran o'r cofnodion y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb. Cyn gynted â bod unrhyw fater am gywirdeb wedi cael ei ddatrys, caiff y Cadeirydd ei awdurdodi i lofnodi'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.
- (iii) Bydd modd i unrhyw aelod-GYSAG ofyn i'r Cadeirydd gynnwys eitem ar Agenda cyfarfodydd y Gymdeithas heb fod gofyn cael eilydd. Mae'n rhaid i geisiadau i gynnwys eitemau ar yr Agenda gael eu gwneud o leiaf bedair wythnos cyn unrhyw gyfarfod. Bydd raid sicrhau eilydd ar gyfer unrhyw gynigiad sy'n cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod.
- (iv) Os digwydd bod rhaid cael pleidleisio yn achos unrhyw gynigiad bydd gan bob un CYSAG sy'n aelod un bleidlais a gwneir penderfyniad trwy fwyafrif syml. Bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw heblaw yn achos ethol Is Gadeirydd neu aelod o'r Pwyllgor Gwaith.
- (v) Bydd y cyfarfodydd a'r gohebu'n cael eu cynnal yn ddwyieithog.
- (vi) Bydd modd i'r Cadeirydd ychwanegu unrhyw faterion eraill ar yr amod bod rhybudd wedi cael ei roi ynglŷn â nhw.
- (vii) Bydd gan y Cadeirydd yr hawl i wahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith unrhyw berson neu bersonau sydd, yn ei farn ef/hi, â chyfraniad i'w wneud at Agenda'r cyfarfod hwnnw. Bydd gan berson gwahoddedig o'r fath yr hawl i siarad a chael gwrandawriad, ond ni chaiff yr hawl i bleidleisio ar unrhyw fater y gelwir am bleidlais arno.

**6. Tanysgrifiad a Chyllid**

- (i) Y flwyddyn ariannol fydd blwyddyn ariannol y Gymdeithas, h.y. o 1 Ebrill y flwyddyn honno hyd at 31 Mawrth y flwyddyn wedyn.
- (ii) Bydd tanysgrifiad blynyddol a fydd yn cael ei bennu yn y Cyfarfod Blynyddol.

**COD YMARFER AR GYFER CYNNAL ETHOLIADAU**

Argymhellir y Cod Ymarfer canlynol ar gyfer cynnal etholiadau-:

- (a) Gwahoddir enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn ystod tymor y gwanwyn bob blwyddyn. Bydd dyddiad cau derbyn yr enwebiadau gan GYSAGau yn cael ei gyhoeddi gan y Gymdeithas ar ddechrau tymor y gwanwyn. Dylai pawb sy'n cael eu henwebu ysgrifennu paragraff, **dim mwy na 200 gair** amdanynt eu hunain. (Gweler nodyn 10 )
- (b) Mae'n rhaid i'r CYSAG sy'n gwneud yr enwebiad sicrhau fod y sawl a enwebwyd yn barod i wasanaethu.
- (c) Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon rhestr o'r rhai a enwebwyd, ynghyd â'r paragraffau, i gyrraedd pob CYSAG yn gynnar yn nhymor yr haf fel bod pob CYSAG yn cael cyfle i ystyried yn ei gyfarfod haf sut i fwrw ei bleidlais.
- (d) Pe digwydd bod dau neu fwy o unigolion yn derbyn nifer cyfartal o bleidleisiau mewn etholiad ar gyfer Is Gadeirydd neu'r Pwyllgor Gwaith, bydd y Cadeirydd yn penderfynu'r mater drwy dynnu "enw allan o het". Cyhoeddir mai'r unigolyn y tynnwyd ei enw fydd yr ymgeisydd llwyddiannus.
- (e) **Pe digwydd, erbyn dyddiad cau enwebiadau i swydd a / neu i aelodaeth o'r Pwyllgor Gwaith, bod nifer yr enwebiadau a dderbyniwyd i bob swydd yn cyfateb i nifer y seddi gwag sydd angen eu llenwi yn y Cyfarfod Blynyddol sydd i ddod, yna yn y Cyfarfod Blynyddol hwnnw lle mae Etholiad yn eitem Agenda, dylid dilyn y drefn ganlynol:**
  - (i) **Dylai Cadeirydd y Cyfarfod, yn yr eitem Agenda honno, wneud datganiad, er mwyn eglurder, yn hysbysu fod nifer yr enwebiad(au) yn cyfateb i nifer y swyddi gwag ac felly nad oes angen etholiad(au).**
  - (ii) **Ystyrir fod yr enwebeion wedi cael eu hethol.**  
(Gweler nodyn 11)
- (f) (gweler nodyn 12)  
Os nad oes digon o bobl wedi cael eu henwebu gan GYSAGau cyn y Cyfarfod Blynyddol i lenwi seddi gwag ar y Pwyllgor Gwaith neu fel Is Gadeirydd, gwneir cais am enwebiadau o'r llawr. Dylai enwebiadau o'r fath gael eu cynnig a'u heilio yn ôl yr arfer. Os derbynnir mwy na'r nifer angenrheidiol o enwebiadau o'r llawr, cynhelir pleidlais ar yr enwebiadau hynny. Ni fydd y bleidlais hon yn cynnwys unrhyw un a enwebwyd cyn y Cyfarfod Blynyddol, bydd yr unigolyn/unigolion hynny yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Gwaith cyn y gwahoddir enwebiadau am unrhyw le gwag.

## Nodiadau i'r newidiadau a awgrymir i Gyfansoddiad 2018

1. Heb fod yn rhy gaeth wrth gynnig canllawiau ar “Statws Sylwedydd” rydym yn argymhell y dylai fod rhyw fath o “gymhwyster”. Byddai hyn yn ddefnyddiol wrth benderfynu pwy i’w gwahodd i “Statws Sylwedydd” ac yn rhoi rheswm pam fod un corff yn cael cynnig statws o’r fath ac un arall ddim. Y cyfan wna’r geiriad presennol yw dangos y byddai angen trafod gwahoddiad i Statws Sylwedydd a’r Gymdeithas i gytuno ar hynny. Mae cyflwyno’r geiriad a awgrymir yn egluro’r dull o gynnig “statws Sylwedydd” i sefydliadau.
2. Yn ein Cyfansoddiad presennol nid yw swydd y cyn-Ysgrifennydd diweddaraf wedi’i chyfyngu gan amser, fel y mae swyddi’r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a’r cyn-Gadeirydd diweddaraf. Golyga hyn y gallai’r cyn-Ysgrifennydd diweddaraf fod yn aelod o’r Pwyllgor Gwaith am nifer diderfyn o flynyddoedd. Awgrymir y dylid gosod cyfyngiad amser i ddim mwy na dwy flynedd o’r adeg y gorffennodd yr unigolyn fod yn ysgrifennydd a dod yn Gyn-ysgrifennydd diweddaraf.
3. PYCAG yw “chwaer fudiad CCYSAGauC”. Mae’r berthynas rhwng CCYSAGauC a PYCAG yn golygu eu bod yn gyd-gysylltiedig ac yn dibynnu’n helaeth ar ei gilydd. Oherwydd hynny, mae PYCAG yn darparu cynrychiolydd i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC er mwyn diogelu a chynnal y berthynas weithio honno. Mae’n sefyllfa wahanol i lle mae CCYSAGauC yn darparu cynrychiolydd, ac yn talu tanysgrifiad, i gyrff allanol eraill ee REC ayb. Drwy dynnu’r gofyniad fod angen i gynrychiolydd PYCAG fod yn aelod o GYSAG lleol, mae’n galluogi PYCAG i benodi’r sawl sydd fwyaf addas, yn eu tyb nhw, i fod yn gynrychiolydd ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC.
4. Mae’n angenrheidiol fod deiliaid swyddi f), g) a h) eisoes yn aelodau o’r Pwyllgor Gwaith neu’n aelodau presennol o GYSAG er mwyn cydymffurfio â gofynion Paragraff 4 (vii) [Bydd penodiadau fel Cynrychiolwyr CCYSAGauC ar a) Cyngor AG Cymru a Lloegr; b) EFTRE; ac c) Cyngor Rhyng-ffydd y DU yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith ar ôl gofyn am fynegiannau o ddiddordeb gan aelodau CYSAGau mewn cysylltiad â CCYSAGauC.]
5. Cyflwyno paragraff newydd i’w gwneud yn glir mai dim ond un bleidlais y person sydd gaen aelodau o’r Pwyllgor Gwaith. Gall fod achos lle mae unigolyn ar y Pwyllgor Gwaith yn dal dwy neu fwy o “swyddi” am amryw o resymau. Bwriad y paragraff newydd hwn yw ei gwneud yn glir mai dim ond un bleidlais fydd gan bob aelod o’r Pwyllgor Gwaith, nid nifer lluosog o bleidleisiau yn ôl nifer y swyddi maen nhw’n eu dal. Gyda chyflwyno’r paragraff newydd hwn fel 4(ii) mae’r paragraffau dilynol eraill i gyd yn cael eu hail-rifo.
6. Tynnu’r swyddogion hyn o’r paragraff yma, gan nad ydynt yn swyddogion etholedig, ond yn swyddogion a benodwyd gan y Pwyllgor Gwaith y mae eu penodiadau yn cael eu cadarnhau yn y cyfarfod tymhorol llawn yn syth ar ôl eu penodiad.
7. Oherwydd y problemau a achoswyd yn y blynyddoedd diwethaf gydag ymddiswyddiadau annisgwyl a’r pandemig, ayb. mae’n ymddangos yn ddoeth cynnwys darpariaeth ar gyfer ymestyn cyfnod y Cadeirydd yn y swydd. Gobeithio na fydd angen darpariaethau’r is-baragraff hwn eto am gryn amser, os o gwbl, ond o leiaf mae cynnwys ymadrodd fel “ac eithrio o dan amgylchiadau.....rhoi’r gorau i’w swydd” yno ar gyfer digwyddiad posibl o’r fath yn y dyfodol.

8. Y ddarpariaeth ychwanegol i'r paragraff hwn, pe bai CYSAG o lle daw'r unigolyn nad yw bellach yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith ddim yn penodi olynnydd mewn amser rhesymol, bydd hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor Gwaith lenwi sedd a achoswyd gan ymddiswyddiad neu fel arall, fel bod y Pwyllgor Gwaith yn ôl i'w lawn aelodaeth ar y cyfle cynharaf.
9. Mae'r paragraff newydd hwn yn gwneud darpariaeth i'r Pwyllgor Gwaith benodi "unigolyn o'r tu allan" yn Ysgrifennydd Cofnodion. Nid oes yn rhaid i'r unigolyn hwnnw fod yn gysylltiedig nac yn aelod o GYSAG ac felly ni chaiff bleidleisio ar unrhyw fater. Fodd bynnag, mae modd hefyd i'r Pwyllgor Gwaith benodi fel Ysgrifennydd Cofnodion unigolyn sydd eisoes yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Os felly, bydd hawl gan yr Ysgrifennydd Cofnodion bleidleisio yn y ffordd arferol.
10. Cynigir terfyn geiriau newydd oherwydd nid yw 100 yn ymddangos yn ddigon i gael dealltwriaeth o'r unigolyn sy'n cael ei enwebu. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael terfyn geiriau ac felly cynigir terfyn o 200 gair.
11. Gall ymddangos yn bwynt amlwg, os yw nifer yr enwebiadau yn gyfartal i nifer swyddi gwag swyddogion neu aelodau gweithredol, yna cânt eu penodi. Fodd bynnag, er mwyn eglurder ac at ddibenion cofnodion y cyfarfod, ac i gyfeirio ato yn y dyfodol, byddai'n arfer da i ddatganiad o'r fath gael ei wneud yn y pwynt yn y cyfarfod lle byddai pleidleisio'n digwydd er mwyn egluro pam na chafwyd pleidlais.
12. Gyda chyflwyno paragraff newydd (e) mae'r paragraff (e) presennol yn dod yn baragraff (f).

This page is intentionally left blank